

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ymateb lleol cychwynnol i argymhellion adolygiad thematig AGIC o offthalmoleg

O ganlyniad i ganfyddiadau ein hadolygiad, rydym wedi cynnwys yr argymhellion trosfwaol canlynol i Fyrddau Iechyd a llunwyr polisïau eu hystyried.

	Canfyddiad yr adroddiad	Gwybodaeth am yr argymhellion	Ymateb Cychwynnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Unigolyn Cyfrifol	Amserlen
1	Materion sy'n ymwneud â'r broses atgyfeirio cleifion (Atgyfeiriadau cleifion – y Broses Atgyfeirio)	Rhaid i'r holl bartïon (Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg a'r Byrddau Iechyd) weithio gyda'i gilydd tuag at gyflwyno system electronig ar gyfer trosglwyddo cofnodion cleifion/atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol o optometryddion i wasanaethau gofal eilaidd.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r datblygiad hwn, a bydd yn chwarae rhan lawn wrth i'r CCE gael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd angen i drefniadau ym Mhowys adlewyrchu'r ffaith bod cysylltiadau cryf gan y sir â darparwyr yn Lloegr o ran gwasanaethau gofal llygaid.	Pennaeth TGCh a Swyddfa'r Rhaglen, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Mae'r bwrdd Iechyd yn ymrwymo i gyflawni ei rwymedigaeth, yn unol â'r amserlen a arweinir yn ganolog ar gyfer y gwaith hwn

2	<p>Roedd Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol y Cynghorau Iechyd Cymuned yn dangos bod rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth am y rheswm dros eu hatgyfeiriad.</p> <p>(Atgyfeiriadau cleifion – y Broses Atgyfeirio)</p>	<p>Dylai byrddau Iechyd weithio gydag optometryddion, trwy Grwpiau Gofal Llygaid Lleol, i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol am y rheswm dros gael eu hatgyfeirio i wasanaeth gofal eilaidd, ac i sicrhau bod pob claf yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'i gofal.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Iechyd, drwy ei Grŵp Gofal Llygaid, erbyn mis Ebrill 2017, yn ystyried y ffordd fwyaf priodol o sicrhau bod optometryddion y sir yn rhoi digon o wybodaeth i gleifion pan fyddant yn cael eu hatgyfeirio at wasanaeth gofal eilaidd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yn yr Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol o Brofiadau Cleifion a gyhoeddwyd fis Hydref 2016 gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru, dywedodd 100% o gleifion eu bod yn fodlon bod eu cyflwr wedi cael ei esbonio'n llawn iddynt, a lefel uchel o foddhad o ran y maint o wybodaeth a roddwyd wrth gydsynio i driniaethau.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Chwarter 2 2017/18</p>
3	<p>Ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfod at y llwybr mynediad cyflym</p> <p>(Atgyfeiriadau Cleifion – Ansawdd Atgyfeiriadau)</p>	<p>A) Dylai Byrddau Iechyd ystyried dulliau ar gyfer mireinio atgyfeiriadau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y llwybr gofal mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithiol, gan osgoi ymweliadau diangen.</p>	<p>Mae Achos Busnes yn cael ei gyflwyno drwy'r Tîm Gweithredol i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac yn amodol ar gymeradwyaeth ym mis Ebrill 2017, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth brysbennu ar gyfer atgyfeiriadau offthalmoleg. Bydd hyn yn cynnwys yr holl optometryddion hyfforddedig yn adolygu'r holl atgyfeiriadau rheolaidd a brys er mwyn sicrhau (a) bod y claf ar y llwybr priodol a (b) bod</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Chwarter 3 2017/18</p>

		<p>B) Dylai Byrddau Iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunyddia u addysgol i godi ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio lleol ymhlith optometryddion a staff perthnasol eraill.</p> <p>C) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau y rhoddir adborth i optometryddion pan ofynnir amdano, ynglŷn ag ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.</p>	<p>yr atgyfeiriad yn ddigon cyflawn o ran y wybodaeth a roddir.</p> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi sylw i'r argymhelliad hwn fel rhan o'r gwasanaeth mireinio atgyfeiriadau arfaethedig y cyfeirir ato yn (A) uchod.</p> <p>Mae rhoi adborth yn y ffordd a argymhellir yn ganolog i'r gwasanaeth brysbennu atgyfeiriadau arfaethedig y cyfeirir ato yn (A) uchod. Pan na fydd atgyfeiriadau yn bodloni'r safon ofynnol, byddant yn cael eu dychwelyd i'r optometrydd sy'n atgyfeirio, gyda chyngor ynglŷn â pha wybodaeth ychwanegol mae ei hangen.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Fel uchod.</p> <p>Fel uchod.</p>
4	Diffyg adborth yn cael ei roi i optometryddion yn dilyn atgyfeirio a rhyddhau cleifion	A) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod adborth ynglŷn â'r diagnosis a'r cynllun triniaeth yn cael ei roi i'r optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn	Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall yn iawn fod adborth i optometrydd sy'n atgyfeirio yr un mor bwysig ag adborth Meddyg Teulu sy'n atgyfeirio. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar y gweill i sicrhau bod adborth o'r	Rheolwyr Lleoliadau Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau darparwyr	Chwarter 2 2017/18

	<p>(Atgyfeiriadau Cleifion – Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau) (Rhyddhau Cleifion – Ansawdd Gwybodaeth)</p>	<p>dilyn pob atgyfeiriad a wneir i'r gwasanaeth, gan gynnwys p'un a wnaed atgyfeiriad i wasanaeth golwg gwan neu beidio.</p> <p>B) Rhaid i optometryddion ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol a sicrhau bod eu henw a chyfeiriad eu practis yn glir ac yn ddarllenadwy.</p> <p>C) Rhaid i Fyrddau Iechyd/Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau'n cael eu cyflwyno i gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i optometryddion mewn perthynas â chleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o ofal eilaidd.</p>	<p>fath ar gael i optometryddion sy'n atgyfeirio naill ai at wasanaeth gofal llygaid a ddarperir ym Mhowys neu wasanaeth a ddarperir y tu allan i Bowys gan ddarparwr allanol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus bod optometryddion yn defnyddio'r ffurflen atgyfeirio Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru briodol. Bydd archwiliad sampl yn cael ei gynnal yn Ch1 17/18 Lle y canfyddir nad yw hyn yn wir, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau ar sail optometryddion unigol.</p> <p>Mae hyn yn derbyn sylw fel rhan o'r ymateb i (A) uchod.</p>	<p>Powys a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Comisiynu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p> <p>Rheolwyr Lleoliadau Cyffredinol ar gyfer Powys (gwasanaethau darparwyr) a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Comisiynu, Bwrdd Iechyd</p>	<p>Chwarter 1 2017/18</p> <p>Chwarter 2 2017/18</p>
--	--	---	--	---	---

				Addysgu Powys (ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol).	
5	<p>Mae'r cynghorau iechyd cymuned yn adrodd am bryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth yn cael ei rhoi cyn triniaeth</p> <p>(Atgyfeiriadau Cleifion – Cyfathrebu yn Dilyn Atgyfeiriadau)</p>	<p>Rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu cyflwr ac unrhyw gynllun triniaeth arfaethedig, cyn unrhyw archwiliad neu driniaeth. Dylai'r wybodaeth hon gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynglŷn â chydsyniad gwybodus.</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod yn yr Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol o Brofiadau Cleifion, dywedodd 100% o'r cleifion a gyflawnodd yr arolwg (fel rhan o'r gwasanaeth a ddarperir o fewn y sir) eu bod yn fodlon bod eu cyflyrau wedi cael eu hesbonio'n llawn iddynt, a bod lefelau uchel o foddhad ymhlith cleifion a oedd yn credu eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u gofal.</p> <p>Bydd y Bwrdd lechyd yn sicrhau bod darparwyr gwasanaeth a leolir y tu allan i'r sir yn cael eu hysbysu am yr angen i gydymffurfio â chanllawiau'r CMC o ran cysyniad gwybodus.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Comisiynu Datblygiad, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Chwarter 2 2017/18</p>
6	<p>Pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oedd unrhyw fonitro</p>	<p>A) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall Systemau Gweinyddu Cleifion</p>			

	<p>penodedig ar gyfer cleifion dilynol</p> <p>(Amserlenni Triniaeth – Targedau)</p>	<p>ddarparu data ynglŷn â'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol a argymhellir gan glinigwyr, a'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol mewn gwirionedd, yn ôl llwybr gofal.</p> <p>B) Rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion gofal mwyaf gyntaf (yn gleifion newydd neu apwyntiadau dilynol), gan wneud y defnydd gorau o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael.</p> <p>C) Rhaid i dimau clinigol dogfennu'r drefn ddilynol a ddewisir ar gyfer pob achos yn glir. Dylid gwneud hyn yn gyson yn unol â phrotocolau y</p>	<p>Mae'r holl atgyfeiriadau offthalmoleg at y gwasanaeth offthalmoleg a ddarperir ym Mhowys yn cael eu blaenoriaethu gan glinigydd o fewn 5 diwrnod gwaith o'u derbyn. Bydd atgyfeiriadau dilynol yn cael eu harwain yn yr un modd, gan fod cyfnodau galw-nôl yn cael eu pennu'n glinigol hefyd. Mae perfformiad amseroedd aros ar gyfer cleifion newydd a chleifion dilynol fel ei gilydd yn cael eu hadolygu bob mis gan y Bwrdd lechyd drwy ei Bwyllgor Perfformiad a Chyflawni. Pan fydd ymweliad dilynol yn cael ei ohirio yn benodol heb unrhyw ddyddiad cytûn, yna caiff bob achos eu hadolygu i sicrhau bod camau gweithredu ac ymweliad dilynol wedi'u trefnu.</p> <p>O ran y gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys, mae'r wybodaeth sy'n hysbysu cyfnodau galw-yn-ôl dilynol yn dod gan glinigwyr unigol. Yn yr</p>	<p>Rheolwyr Lleoliadau Cyffredinol, Bwrdd lechyd Addysgu Powys</p> <p>Rheolwyr Lleoliadau Cyffredinol, Bwrdd lechyd Addysgu Powys</p>	<p>Yn fisol drwy'r Pwyllgor Darparu a Pherfformiad</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	---	---	--	---	---

		cytunir arnynt. Dylid hysbysu cleifion am unrhyw newidiadau i'r cynllun.	Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol o Brofiadau Cleifion, mynegwyd lefel uchel o foddhad gan gleifion o ran teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u gofal.		
7	Diffyg adrodd am ddigwyddiadau mewn perthynas â pholisi niwed i gleifion Llywodraeth Cymru (Adrodd am Ddigwyddiadau)	A) Rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau ac i nodi patrymau posibl sy'n rhoi rhybudd cynnar am fethiannau system fwy difrifol. B) Pan fydd digwyddiadau, rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau, yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â niwed i gleifion, bod y rhai'n cael eu hadrodd fel Digwyddiadau Andwyol Difrifol.	Defnyddir Datix fel y dull adrodd am ddigwyddiadau ar draws Powys. Defnyddir hyn i gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau y gwyddys eu bod wedi digwydd mewn lleoliad gofal sylfaenol. Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn cael eu harchwilio'n llawn ac adroddir arnynt. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd drwy'r Bwrdd Pwyllgor Ansawdd Profiad y Claf a'r Pwyllgor Diogelwch yn chwarterol. Gall y Bwrdd lechyd gadarnhau ei fod yn adrodd am ddigwyddiadau difrifol yn unol â gofyniadau Llywodraeth Cymru.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd lechyd Addysgu Powys Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd lechyd Addysgu Powys	Cwblhawyd Cwblhawyd
8	Diffyg capasiti/breuder gwasanaethau oherwydd gorddibyniaeth ar	A) Rhaid i Fyrddau lechyd fod yn weithredol wrth ddatblygu cynlluniau gweithlu sy'n mynd ati i	Nid yw'r Bwrdd lechyd yn cyflogi staff offthalmoleg ar raddfa ymgynghorydd yn uniongyrchol. O ran y gwasanaethau a ddarperir ym	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd lechyd	Cwarter 3, 2017/18 ar gyfer y rhan gyntaf

	<p>ymgynghorwyr. Materion ynglŷn â diffyg capasiti, recriwtio a diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau.</p> <p>(Triniaeth – Capasiti)</p>	<p>fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y capasiti gwasanaeth cyfredol a'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd i liniaru'r risg i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio uchafu capasiti trwy wneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau staff meddygol a staff nad ydynt yn staff meddygol sydd ar gael, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael.</p>	<p>Mhowys, mae'r adnodd hwn yn cael ei sicrhau drwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr allanol, o fewn Cymru a'r tu allan iddi. Gan gydnabod y pwysau y mae gwasanaethau llygaid ysbyty yn ei wynebu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n rhagweithiol i gynyddu lefel y gweithgaredd a ddarperir yn y sir gan staff anfeddygol. Mae'n gweithio'n agos gyda'r gymuned optometryddion, ac mae wedi bod yn llwyddiannus yn y 12 mis diwethaf o ran (a) recriwtio 5 optometrydd i weithio yn y gwasanaeth AMD gwlyb newydd De Powys; (b) sicrhau bod bron i bob archwiliad cataract ar ôl llawdriniaeth yn cael ei gyflawni mewn gofal sylfaenol; (c) sicrhau bod optometryddion yn Swydd Amwythig yn gallu darparu, a chael eu talu, am archwiliadau cataract ar ôl llawdriniaeth sy'n cynnwys cleifion o Bowys; gan gydnabod bod rhai cleifion yn cael mynediad at eu gwasanaethau gofal llygaid arferol y tu allan i Bowys. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu gwasanaeth AMD gwlyb yng Ngogledd Powys a fydd yn defnyddio safle a gweithlu practis optometreg, ond gyda chyfranogiad</p>	<p>Addysgu Powys (mewn perthynas â'r gweithlu gofal sylfaenol) Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (ar gyfer y gweithlu nad ydynt yn darparu gofal sylfaenol)</p>	
--	---	---	---	---	--

		<p>B) Rhaid i Fyrddau lechyd ystyried ffyrdd i weithio'n agosach gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol. Er enghraifft, trwy ddarparu offer (a hyfforddiant) ar gyfer practisau optometreg i ganiatáu iddynt fireinio atgyfeiriadau a/neu asesu cleifion sefydlog. Mae angen gwneud hyn mewn modd wedi'i gynllunio a strategol o dan reolaeth y Bwrdd lechyd.</p>	<p>llawn y staff sydd ar raddfa ymgynghorol hefyd. Bydd yn darparu gwasanaeth sy'n fwy hygyrch i gleifion, ond yn lleihau'r angen am lety ac adnoddau ysbytai. Bydd hwn yn dechrau yn haf 2017.</p> <p>Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar ofal sylfaenol, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i weithio'n agos gydag optometryddion gofal sylfaenol. Rhoddir enghreifftiau uchod, ond mae rhagor wedi ei gynllunio i'w weithredu yn 2017/18 ar yr amod bod trefniadau llywodraethu boddhaol ar waith, ynghyd â'r gallu i adennill costau gan adnoddau gofal eilaidd a gomisiynir. Mae rhestr wedi'i llunio o wasanaethau eraill sydd â'r potensial o gael eu darparu mewn lleoliad gofal sylfaenol, o ystyried argaeledd optometryddion cymwys sy'n meddu ar sgiliau digonol gyda mynediad at y cyfleusterau ac offer gofynnol.</p> <p>Mae cyfeiriadau at fireinio atgyfeiriadau wedi eu cysylltu'n agos iawn â'r gwasanaeth brysbennu ar gyfer atgyfeirio a grybwyllir yn rhif 3</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd lechyd Addysgu Powys</p>	<p>Chwarter 4 2017/18</p>
--	--	--	--	--	-------------------------------

			uchod. Mae gan y Bwrdd lechyd hanes blaenrol da o ran gweithio gyda, a pharhau i weithio gyda, chydweithwyr gofal sylfaenol.		
9	Dylai Byrddau lechyd ddysgu o'r profiadau yn dilyn y cynnydd a wnaed mewn mannau eraill (Triniaeth – Mentrau i wella Capasiti)	A) Rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau eu bod yn llawn ymgysylltu â Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg i gynorthwyo wrth rannu dysgu â staff mewn ardaloedd eraill. B) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen datblygu dulliau o weithredu eraill i annog dysgu rhwng Byrddau lechyd yn ogystal â dulliau mwy integredig i fynd i'r afael a themâu/problemau cyffredin sy'n cael eu profi ledled Cymru. Er enghraifft, cyflwyno chwistrelliadau gan staff nad ydynt yn staff meddygol.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cymryd rhan lawn yng ngwaith y WOPCB, ac mae uwch-reolwr a rheolwr comisiynu yn mynychu cyfarfodydd. Mae hwn yn gam gweithredu LIC. Mae gan y Bwrdd lechyd, fodd bynnag, chwistrellwyr anfeddygol fel rhan o'i wasanaeth AMD gwlyb lleol.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd lechyd Addysgu Powys	Cwblhawyd
10	Pwysigrwydd rôl y cydlynnydd AMD	Oherwydd gofynion y rôl a phwysigrwydd sicrhau bod	Sefydlodd y Bwrdd lechyd ei wasanaeth AMD gwlyb cyntaf o fewn	Rheolwr Ardal Cyffredinol	Cwblhawyd

	(Staff Cymorth Gwasanaeth – Cydlynwyr AMD)	cydlynnydd AMD ar gael yn gyson, dylai Byrddau Iechyd ystyried a yw un cydlynnydd AMD yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	y sir yn Aberhonddu ym mis Mawrth 2016. Mae hwn yn wasanaeth un dydd bob wythnos, sy'n cynnwys cydlynnydd pwrpasol i oruchwylio'r trefniadau gweinyddu cleifion.	(Canol a De Powys), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	
11	Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – diffyg defnydd o'r rôl gan staff eraill (Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o argaeledd y gwasanaeth lleol gan swyddogion cyswllt gofal llygaid. Sicrhau bod gan gleifion fynediad at gyngor a chymorth perthnasol.	Mae Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid yn gweithio ym Mhowys ers dwy flynedd ac mae cydberthnasau gweithio cadarnhaol â'r staff sy'n gweithio ar lefel ysbyty cymunedol lle mae'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn darparu cyflenwad.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Cwblhawyd
12	Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – Diffyg Capasiti/Argaeledd (Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)	Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod swyddog cyswllt gofal llygaid ar gael yn eu clinigau gofal llygaid ar bob adeg, a dylid ystyried a yw un swyddog cyswllt gofal llygaid yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	Mae Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid yn gweithio ym Mhowys ers dwy flynedd ac ar hyn o bryd nid yw'r holl glinigau yn cynnig darpariaeth gyson. Y nod ar gyfer 17/18 yw cael yr holl glinigau ledled y sir yn cynnig darpariaeth 50% o'r amser. Bydd y 50% sy'n weddill yn cynnig darpariaeth drwy atgyfeiriadau a wneir gan staff lleol gwybodus iawn at y Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Chwarter 4 2017/18
13	Pryderon a leisiwyd gan	Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau	Mae gallu'r staff i godi pryderon yn	Cyfarwyddwr	Cwblhawyd

	<p>staff mewn perthynas â diffyg prosesau ar waith i gyflwyno sylwadau/awgrymiadau i reolwyr Byrddau Iechyd.</p> <p>(Staff Cymorth Gwasanaeth – Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid)</p>	<p>bod dulliau ar waith i ganiatáu i staff leisio unrhyw bryderon/awgrymiadau sydd ganddynt ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei roi i unigolion yn rheolaidd.</p>	<p>fater y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd o ddifrif. Maent yn cael eu hannog i wneud felly; mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n gweithio i ddarparu gwasanaethau offthalmoleg.</p>	<p>Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	
14	<p>Mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â rôl yr optometrydd wrth iddi ddatblygu</p> <p>(Rôl yr Optometrydd)</p>	<p>I alluogi gwneud defnydd mwy effeithiol o optometryddion, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder i Fyrddau Iechyd ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwysterau a mecanweithiau cyfathrebu.</p>	<p>Mae hwn yn gam gweithredu LIC, er bod optometryddion yn cael eu defnyddio'n eang ym Mhowys i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer yr hyn sydd fel arall yn wasanaethau gofal eilaidd. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth AMD gwlyb yn Aberhonddu, a chynnal archwiliadau llygaid cataract ar ôl llawdriniaeth ledled y sir.</p>		
15	<p>Mae angen gwneud defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti</p>	<p>Dylai Byrddau Iechyd ystyried y defnydd ychwanegol o optometryddion i gynyddu capasiti a lleihau'r baich ar ofal</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n gadarnhaol iawn â'r gymuned optometreg ym Mhowys ac Optometreg Cymru hefyd. Caiff hyn</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd</p>	<p>Cwblhawyd, gydag adolygiadau misol i sicrhau</p>

	<p>(enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a lleihau'r baich ar wasanaethau gofal eilaidd.</p> <p>(Y Defnydd o Optometryddion)</p>	<p>eilaidd. Bydd angen i Fyrddau Iechyd sicrhau bod materion yn cael eu hegluro ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant a chyfathrebu ar gyfer optometryddion.</p>	<p>ei gynorthwyo yn sylweddol drwy'r ddau gynghorwr optometreg sy'n arfer optometreg yn y wlad. Mae 5 optometrydd wedi cael eu penodi i gefnogi'r gwasanaeth AMD gwlyb yn Aberhonddu ac mae 2 ohonynt yn cynorthwyo gyda chlinigau offthalmeg gyffredinol yno ac yn Llandrindod. Yn dilyn llawdriniaeth cataract ym Mhowys, mae bron i'r holl asesiadau dilynol yn cael eu cynnal gan optometryddion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi estyn y gallu i wneud hyn i optometryddion sy'n gweithio yn Swydd Amwythig sy'n gweld cleifion Powys. Er mwyn chwalu'r rhwystrau traddodiadol rhwng gofal eilaidd a sylfaenol, mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i gyflwyno cyfres o wasanaethau ychwanegol yng Ngogledd Powys sy'n cynnwys defnyddio lleoliad gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau a ddarperir ar y cyd gan optometryddion a staff ymgynghorol.</p>	Addysgu Powys	cydymffurfiaeth
16	<p>Cleifion yn methu â chael eu hatgyfeirio am eu</p>	<p>Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn atgoffa staff am</p>	<p>Bydd camau yn cael eu cymryd gan Grŵp Gofal Llygaid Powys i sicrhau</p>	Rheolwyr Lleoliadau	Chwarter 2, 2017/18

	<p>hasesiad golwg gwan yn gyson gan staff gofal eilaidd.</p> <p>(Y Defnydd o Optometryddion)</p>	<p>bwysigrwydd atgyfeirio'r holl gleifion cymwys i optometrydd achrededig ar gyfer asesiad golwg gwan.</p>	<p>erbyn 30 Mehefin 2017, bod yr holl staff sy'n gweithio mewn ysbytai cymunedol ac sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau offthalmoleg yn ymwybodol o'r gwasanaeth golwg gwan a sut y gellir cael mynediad ato. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd â'r Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.</p>	<p>Cyffredinol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	
17	<p>Problemau ynglŷn â chydberthnasau gwael rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd yn cael effaith ar y cynnydd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth</p> <p>(Y Berthynas rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd)</p>	<p>Rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn ymgysylltu â'r Grŵp Gofal Llygaid lleol. Dylai'r grŵp gwrdd yn rheolaidd a chael ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Un amcan allweddol yw gwella'r gydberthynas weithio rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd, er mwyn meithrin mentrau gweithio ar y cyd.</p>	<p>Mae Grŵp Gofal Llygaid Powys yn cwrdd bob deufis ac mae ganddo gadeirydd cyfarwyddwr gweithredol enwebedig. Ystyrir bod cynrychiolaeth aelodau helaeth gan y grŵp.</p>	<p>Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p>	<p>Cwblhawyd</p>
18	<p>Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynghorydd optometreg yn y swydd ar adeg ein hadolygiad</p>	<p>Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr recriwtio cynghorydd optometreg parhaol i'r swydd yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>		

	(Y Berthynas rhwng Gofal Sylfaenol a Gofal Eilaidd)				
19	<p>Pryderon o leisiwyd ynglŷn â meini prawf gwahanol yn cael eu defnyddio gan ymgynghorwyr gwahanol, sydd o ganlyniad yn golygu bod rhai cleifion yn derbyn apwyntiadau dilynol yn ddiangen neu'n cael eu trin pan fydd y tebygolrwydd o wella'n isel.</p> <p>(Rhyddhau Cleifion – Meini Prawf)</p>	<p>Rhaid i Fyrddau lechyd sicrhau bod gan eu gwasanaeth AMD bolisi sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion sydd ag AMD gwlyb, yn unol â chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod yw sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn hwy na'r angen. Gwneud y defnydd gorau o'r capasiti ar gyfer cleifion sydd fwyaf tebygol o fod ar eu hennill. Gallai cydymffurfiaeth â'r polisi ffurfio rhan o'r archwiliad gwasanaeth blynyddol.</p>	<p>Mae gan Bowys wasanaeth AMD gwlyb o fewn y sir a leolir yn Ysbyty Aberhonddu. Mae'n cael ei arwain yn glinigol gan staff Ymddiriedolaeth Dyffryn Gwy. Bydd cydymffurfiaeth â'r Grŵp Cydlynu Rhanbarthol yn cael ei ystyried gan y bwrdd prosiect AMD gwlyb.</p>	<p>Bwrdd Prosiect AMD gwlyb, De Powys</p>	<p>Chwarter 1, 2017/18</p>
20	<p>Systemau TG annigonol ar gyfer casglu data defnyddiol. Ymwybyddiaeth gyfyngedig o ddata ynglŷn â chapasiti a galw.</p> <p>(Systemau Rheoli Gwybodaeth – Cynllunio)</p>	<p>Mae angen gwneud gwelliannau i'r systemau rheoli gwybodaeth o fewn Byrddau lechyd i alluogi casglu data ynglŷn â chapasiti a galw (perfformiad) yn gywir, i ganiatáu cynllunio'r gweithlu mewn modd mwy gwybodus, ac i sicrhau bod darpariaeth yn</p>	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu set o ddangosyddion lleol sy'n dangos ei berfformiad yn erbyn gweithgareddau offthalmoleg cyffredinol cleifion allanol ac amseroedd aros; a gweithgaredd cataract ac AMD gwlyb. Mae'r Bwrdd lechyd yn chwarae ei ran hefyd wrth</p>	<p>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, Bwrdd lechyd Addysgu Powys</p>	<p>Cwblhawyd</p>

		seiliedig ar angen cleifion.	ddatblygu gwelliannau i'r systemau adrodd offthalmoleg ar sail Cymru gyfan.		
21	Materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth (Systemau Rheoli Gwybodaeth – Rhannu Gwybodaeth)	Mae angen gwneud gwelliannau i'r mynediad at wybodaeth cleifion, a'r broses o'i rhannu, o fewn ardaloedd y Bwrdd Iechyd i wella effeithlonrwydd gwasanaethau.	Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus o fewn ardal y Bwrdd Iechyd bod y rhai sydd angen mynediad dilys at wybodaeth i gleifion (boed hynny o safbwynt clinigol neu reoli) yn cael mynediad ati.	Cyfarwyddwr Meddygol	Cwblhawyd
22	Diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal llygaid yn gyffredinol (Ymwybyddiaeth y Cyhoedd)	Mae angen i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd ystyried sut y gellir gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd profion llygaid rheolaidd, a materion gofal llygaid yn gyffredinol, yn ogystal â'r symptomau i edrych amdanynt sy'n gysylltiedig â chyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd ceisio cyngor gofal iechyd yn gyflym. Mae angen darparu rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau/gweithwyr	Yn unol â'i gred y dylai archwiliadau llygaid rheolaidd fod yn rhan o archwiliadau iechyd blynyddoedd cynnar plentyn, mae gwasanaeth sgrinio mewn ysgolion y Bwrdd Iechyd yn gweithio i annog rhieni / gofalwyr i gysylltu'n rheolaidd â'u hoptometryddion ar y stryd fawr. Mae hyn yn adlewyrchu un o'r amcanion sy'n rhan o gynllun cyflenwi gofal llygaid y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfathrebu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Chwarter 2, 2017/18

		proffesiynol eraill sydd ar gael i weld/trin cleifion mewn perthynas â'u cyflyrau llygaid.			
--	--	--	--	--	--

Cyf: 170116 ymateb lleol cychwynnol i argymhellion adolygiad thematig AGIC o offthalmoleg Diweddarwyd 200317